



Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Trawsfynydd

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Hydref i 31 Rhagfyr 2014

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddiol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosbarthir adroddiadau yn chwarterol i aelodau SSG Trawsfynydd ac maent hefyd ar gael ar wefan yr ONR (<http://www.onr.org.uk/lrc/>).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sydd eisiau ymholi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.

TABL CYNWYS

1	ARCHWILIADAU	3
2	MATERION ARFEROL	3
3	MATERION ANARFEROL	4
4	GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO	4
5	NEWYDDION GAN YR ONR	5
6	CYSYLLTIADAU	6

1 ARCHWILIADAU

1.1 Dyddiadau archwiliadau

Fe gyflawnodd arolygydd safle'r ONR arolygiadau ar y dyddiad canlynol yn ystod y chwarter:

- 6 i 9 Hydref
- 12 Tachwedd
- 1 i 4 Rhagfyr

2 MATERION ARFEROL

2.1 Archwiliadau

Cynhelir arolygiadau ar y safle fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i haddaswyd);
- y Ddeddf Ynni 2013;
- y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HWSA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HWSA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 (IRR99) a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r archwiliad yn golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i'r achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan yr amodau sydd wedi eu hatodi i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau yn ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithrediad.

Yn y cyfnod hwn, cwmpasodd arolygiadau rheolaidd safle Trawsfynydd y canlynol:

- Archwiliad, cynnal a chadw, arolygu a phrofi;
- Rheoli gweithrediadau, gan gynnwys rheoli a goruchwyllo;
- Addasiadau i beiriannau, offer ac achosion diogelwch;
- Newidiadau sefydliadol;

Yn gyffredinol, barnodd yr ONR bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle yn bodloni gofynion yr achosion diogelwch perthnasol a'r safonau diogelwch gofynnol.

Yn dilyn arddangosiad boddhaol o drefniadau argyfwng ar y safle (ymarfer arddangos Lefel 1) yng Ngorffennaf 2014, gosododd yr ONR nifer o fân gamau ar y trwyddedai i wella eu trefniadau argyfwng ymhellach yn Nhrawsfynydd. Un weithred o'r fath oedd arddangos rheolaeth ymatebwyr wrth gyrraedd a gadael lleoliad y digwyddiad, i sicrhau eu bod wedi eu diogelu'n ddigonol ac i leihau lledaeniad halogiad ar y safle. Cynhaliodd y trwyddedai ymarfer i'r diben hwn ar 12 Tachwedd 2014. Mynychodd arolygydd safle'r ONR ac arolygwr arbenigol yr ymarfer hwn ac ystyried fod perfformiad y safle yn ddigonol.

2.2 Gwaith arall

Derbyniodd Cavendish Fluor Partnership (CFP) reolaeth lawn fel Sefydliad Corff Rhiant (PBO) cwmnïau trwydded safle niwclear Magnox Ltd a Research Sites Restoration Limited ar 1 Medi 2014. Ers hynny ni fu unrhyw gynigion arwyddocaol ar gyfer newidiadau sefydliadol yn Nhrawsfynydd (gan nodi fod SSGau eisoes wedi dod yn ymwybodol o newidiadau i swyddi PBO o fewn safleoedd trwyddedig Magnox Ltd). Os bydd y sefydliad rheoli newydd yn cynnig newidiadau i'r ONR yn y dyfodol, bydd yr ONR yn adrodd arnynt yn yr adroddiad chwarterol priodol.

Ar 28 Tachwedd 2014, derbyniodd yr ONR gais i ail drwyddedu safleoedd Harwell a Winfrith i gwmni trwydded safle unigol ynghyd â'r deg safle Magnox. Mae'r ONR yn asesu'r cais hwn ar hyn o bryd yn unol â'r meini prawf a gynhwysir yn ei gyhoeddiad 'Trwyddedu Safleoedd Niwclear'. Mae'r cais yn cynnwys cynnig i gyflwyno strwythur Bwrdd a Gweithgor cyffredin sy'n cael ei brofi mewn cyfnod o weithio cysgodol rhwng 1 Rhagfyr 2014 a Gwanwyn 2015. Mae'r ONR yn cynnal asesiad targedig a chymesur o allu sefydliadol yr ymgeisydd, yn cynnwys archwiliad o'r newidiadau i'r Bwrdd a'r Gweithgor.

3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredin. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.

Materion penodol i'w nodi yn ystod y cyfnod oedd:

- Mae'r trwyddedai wedi nodi nifer arwyddocaol o faterion yn ymwneud â chwblhau cofnodion amserlen cynnal a chadw cydymffurfiad. Mae methiant i gwblhau'r cofnodion hyn yn gywir wedi cyfaddawdu ar allu'r safle i arddangos cydymffurfiad gydag Amod Trwydded 28 yn llawn (archwilio, arolygu, cynnal a chadw a phrofi). Awgryma ymchwiliad rhagflaenol y trwyddedai nad yw'r mater yn ymwneud â chwblhau gweithgareddau cynnal a chadw, ond o ran eu cofnodi. Mae'r trwyddedai yn cynnig darparu hyfforddiant gloywi ac ail awdurdodi ar gyfer yr holl sydd wedi awdurdodi i gyflawni gweithgareddau cydymffurfiad LC28 ar hyn o bryd. Mae'r ONR yn ystyried hyn i fod yn ymateb cadarn i'r materion a nodwyd.
- Anfonwyd dau offeryn darganfod ymbelydredd, a ddefnyddir ar gyfer monitro ffiseg iechyd, o'r safle ar gontractwr cynnal a chadw. Roedd gan yr offerynnau hyn lefelau allanol o ymbelydredd nad oeddynt wedi eu hysbysu i'r contractwr, ac nad oeddynt yn bodloni meini prawf derbyniad y contractwr. Fodd bynnag, fe ddanfonwyd yr offerynnau hyn fel pecynnau wedi eu traddodi yn radiolegol, gan gydnabod fod yr offerynnau wedi eu defnyddio mewn ardaloedd halogiad rheoledig. Yn yr achos hwn, nid oedd yr offerynnau yn halogedig iawn, ond mae'r trwyddedai wedi ymchwilio'n geidwadol i'r digwyddiad ar y sail bod posibiliad i'r offerynnau fod yn fwy halogedig. Rwy'n fodlon fod y trwyddedai wedi nodi achos tebygol y digwyddiad ac yn sefydlu gweithdrefnau i sicrhau nad yw'n digwydd eto.

4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO

4.1 Offerynnau Trwyddedu a Hysbysiadau Gorfodi

Gall yr ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol. O dan amodau trwyddedu safleoedd niwclear, mae'r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd; gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs), ond gallant fod ar ffurf arall. Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

Ni chyhoeddwyd unrhyw LIs na Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod.

4.2 Amodau Trwyddedu Addasedig

Gwnaethpwyd addasiadau i amodau trwyddedu 1 a 3.

Mae Amod Trwyddedu 1 (LC1, Dehongliad) yn darparu set o ddiffiniadau. Penderfynodd yr ONR addasu'r diffiniad o "ddeunydd ymbelydrol" a "gwastraff ymbelydrol" i sicrhau eu bod yn

gyson gyda gofynion rheoleiddio'r ONR. Roedd y newidiadau hyn yn ofynnol oherwydd bod deddfwriaeth arall, yr oedd yr Amodau Trwyddedu yn gysylltiedig iddynt, wedi addasu'r diffiniadau.

Mae Amod Trwyddedu 3 (LC3, Rheoli Trafodion Eiddo) yn gofyn i'r trwyddedai wneud a gweithredu trefniadau digonol i reoli trafodion eiddo ar safleoedd niwclear trwyddedig. Roedd LD3 yn rhagnodol ac yn gofyn i'r trwyddedai gael caniatâd yr ONR ("cydsyniad") cyn gosod, trosglwyddo neu neilltuo unrhyw ran o'r safle trwyddedig i drydydd parti. Nid oedd yn darparu ar gyfer arwyddocâd diogelwch niwclear trafodion. Mae newidiadau yn natur y diwydiant niwclear, ynghyd â phresenoldeb cynyddol contractwyr neu drydydd parti eraill ar safleoedd trwyddedig, wedi arwain at nifer cynyddol o geisiadau LC3, gyda nifer ohonynt ag ychydig neu ddim arwyddocâd diogelwch niwclear. Mae hyn wedi gosod baich rheoleiddiol anfwriadol ar drwyddedeion ac yn ddefnydd aneffeithiol o adnodd arbenigol ac amser yr ONR. Y prif newid yw gofyn i'r trwyddedai wneud a gweithredu trefniadau digonol sy'n rheoli'r holl drafodion eiddo sy'n effeithio ar y safle ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dosbarthiad a rheolaeth o unrhyw drafodion eiddo yn ôl eu harwyddocâd diogelwch a'u heffaith ar reolaeth y trwyddedai o'r safle.

Mae llawlyfr amodau trwyddedu'r ONR wedi ei ddiweddarau ac ar gael trwy wefan yr ONR yn <http://www.onr.org.uk/silicon.pdf>.

5 NEWYDDION GAN YR ONR

Gellir cael cipolwg ar waith yr ONR fel rheolydd annibynnol i'r diwydiant niwclear yn Newyddion Chwarterol yr ONR. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (<http://www.onr.org.uk/onr-quarterly-report.htm>) yn adrodd ar themâu a datblygiadau allweddol ym mhob un o raglenni rheoleiddio'r ONR ac yn darparu diweddariad ynglŷn â'r newidiadau i ddod yn ONR. <http://www.onr.org.uk/index.htm>. I gael y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR, ewch i'r wefan a chofrestrwch ar gyfer eich e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

6 CYSYLLTIADAU

Y Swyddfa dros Reoli Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersi
L20 7HS

gwefan: www.onr.org.uk

e-bost: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am ONR, neu i roi adroddiad am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© *Y Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2014*

Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.onr.org.uk/copyright am fanylion.

Cyhoeddwyd 01/15

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.